# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 8fed Mehefin 2026**
**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 8th June 2026**

**Yn Bresennol/Present:**
Cynghorwyr/Councillors Beth Davies, Peter Evans (Cadeirydd/Chair), Gethin Jones, Elen Grantham, Sue Lloyd, Eifion Rees a/and Keith Evans sydd hefyd yn/ who is also Gynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South/ a/ and Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul a Throedyraur/ County Councillor Llandysul North Troedyraur Maldwyn Lewis. Ymunodd Cynghorydd Eileen Curry â'r cyfarfod yn dilyn problem gyda'r cysylltiad ar Zoom am 8 o'r gloch, a gadawodd y cyfarfod am 9:10pm / Cllr Eileen Curry joined the meeting following a connection issue with Zoom at 8 o'clock and left the meeting at 9:10.pm

**Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Deiniol Evans, Heddwen Davies a Douglas Davies. Ymddiheurodd Cynghorydd Elen Grantham am golli cyfarfod mis Mai. / Apologies for absence were received from Cllrs Deiniol Evans, Heddwen Davies and Douglas Davies. Cllr Elen Grantham apologised for missing the May meeting.
**Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Datgelwyd budd gan Gynghorydd Beth Davies wrth drafod y cais am rodd gan Sioe Llandysul. / Declaration of interest was received by Cllr Beth Davies when discussing the donation request from Llandysul Show.

**Adroddiad/Report**

Ni chafwyd adroddiad gan y PCSO yn rhoi Diweddariad am Droseddau a Digwyddiadau yn ardal y Cyngor ar gyfer mis Ebrill, ond roedd wedi anfon adroddiad Troseddau mis Ebrill yn dilyn y cyfarfod diwethaf. /
No report was received from the PCSO for the month of April providing a Crime and Incident Update for the Councils area but she had sent the April Crime report following the last meeting.

**LLANDYSUL**

Adroddwyd am 7 trosedd yn ardal Cyngor Cymuned Llandysul, 9 pryder diogelwch y cyhoedd a lles, ac 1 adroddiad traffig. /
We have had 7 crimes reported in the Llandysul Community Council area, 9 public safety and welfare concerns and 1 traffic reports

**Troseddau / Crimes 7**

2 adroddiad am Ddifrod Troseddol – Taflu cerrig at geir ar ddreif, gan ddifrodi cerbydau, tri pherson ifanc yn cicio drws tŷ ac yn rhedeg i ffwrdd / 2x Criminal Damage- Stone thrown at cars on driveway damaging vehicles, three youths kicking on door of house and running away
2 achos Domestig / 2x Domestic- N/A
1 Byrgleriaeth – Dwyn beic o Garej / 1x Burglaries- Bicycle stolen from Garage
1 achos o Aflonyddu – Recordiwyd unigolyn wrth iddynt farchogaeth heibio cymydog. Bu ci yn ymosodol tuag at y ceffyl a'r unigolyn a oedd ar ei gefn hefyd / 1x Harassment- Person recorded whilst riding horse past neighbour. Dog also aggressive towards horse and rider

1 achos o Ddwyn – Unigolyn yn dymuno cael gwybod am ddatblygiadau o ran dwyn beic (ar wahân i fyrgleriaeth) / 1x Theft- Person wanting to know progression over theft of bike (separate to burglary)

**Diogelwch y Cyhoedd / Public Safety 9**

3 Lles a Diogelwch y Cyhoedd/galwadau 999 – Un galwad a wnaed tra bod y ffôn mewn poced, un plentyn wedi ffonio yn ddamweiniol ac un galwad ddamweiniol (roeddent wedi bwriadu ffonio 101) / 3x Public Safety Welfare Aban/Incom 999 calls- One pocket dial, one child accidentally dialled and one accidental dial (intended to call 101)
1 Lles a Diogelwch y Cyhoedd – yn Ymwneud ag Anifeiliaid – Adrodd am gi ymosodol / 1x Public Safety Welfare - Animal Related- Reporting an aggressive dog
1 Lles a Diogelwch y Cyhoedd Arall – Tacsi yn adrodd bod rhywun heb dalu am eu taith mewn tacsi / 1x Public Safety Welfare Other- Taxi reporting someone not paying for taxi
1 Lles a Diogelwch y Cyhoedd RCRP – Gwiriad diogelwch a oedd i fod i gael ei anfon at wasanaeth mwy priodol yn wreiddiol, fodd bynnag, roedd yr heddlu wedi ail-werthuso a phenderfynu mynychu (fe'u canfuwyd yn ddiogel ac yn iach) / 1x Public Safety Welfare RCRP- Welfare check that was originally going to be passed to more appropriate service, however police reevaluated and decided to attend (found safe and well)
1 Lles a Diogelwch y Cyhoedd – Roedd unigolyn ar y ffordd yn mynd yn ddiymadferth, mynychodd yr heddlu nes i'r ambiwlans gyrraedd / 1x Public Safety Welfare - Person was on road going in and out of consciousness, police attended until ambulance attended
1 Lles a Diogelwch y Cyhoedd Marwolaeth Sydyn – Daethpwyd o hyd i ddyn wedi marw mewn cartref gofal, dim amgylchiadau amheus / 1x Public Safety Welfare Sudden Death- Gentleman found dead in care home, no suspicious circumstances
1 Gweithgarwch/Gwrthrych Amheus – Adroddiad am rywun yn gyrru neb unrhyw dreth na phrawf mot, ac adrodd am weithgarwch delio cyffuriau o'r adeilad o bosibl hefyd / 1x Suspicious Activity/Object- Report of someone driving with no tax or mot, also reporting possible drug dealing from the building

**Admin 4**

2 Fater Cyffredinol / 2x General Matters
2 Alwad a wnaethpwyd o'r blaen / 2x Repeat Calls
Traffig / Traffic 1
1 Damwain Ffordd – Damwain rhwng dau gerbyd mewn maes parcio. Difrod bach iawn i'r ddau gerbyd, gadawyd y manylion / 1x Road Traffic Collision- Two vehicle Road Traffic Collision in carpark. Minimal damage to both vehicles, details left

**CAPEL DEWI, PONTSIÂN A THRE-GROES / CAPEL DEWIS, PONTSIAN AND TREGROES**

Data Troseddu / Crime Data
Adroddwyd am 6 trosedd yn ardal Cyngor Cymuned Capel Dewi. 4 pryder iechyd y cyhoedd a lles a 4 adroddiad traffig / We have had 6 crimes reported in the Capel Dewi Community Council area, 4 public safety and welfare concerns and 4 traffic reports

**Troseddau / Crimes 6**

2 achos Domestig / 2x Domestic- N/A
1 Difrod Troseddol – Ci wedi lladd defaid ar dir fferm/ 1x Criminal Damage- Dog killed sheep on farmland

1 achos Cyffuriau – Amheuaeth o gyffuriau mewn swyddfa bost / 1x Drugs- Suspected drugs at postal office
1 achos yn ymwneud ag Arf Tanio/Arfau – Unigolyn yn adrodd am beled o reiffl awyr mewn wal / 1x Firearms/Weapons- Person reporting pellet from air rifle in wall
1 Arall – Unigolyn yn adrodd bod rhywun wedi torri coed i lawr a oedd yn cynnwys adar yn nythu / 1x Other- Person reporting someone cutting trees down that have nesting birds

**Diogelwch y Cyhoedd / Public Safety 4**

2 achos o Wrthrych/Gweithgarwch Amheus – Mochyn daear marw (a laddwyd wrth ymyl y ffordd) wedi cael ei symud o'r ffordd i lawr i fanc i lawr y ffordd o'r man lle'r oedd yn wreiddiol, roedd y sawl a oedd yn galw yn nodi eu bod yn credu ei fod wedi cael ei roi ar eu tir nhw yn fwriadol. Rhywun yn adrodd yn ddienw am bobl sy'n dwyn trydan ac yn osgoi rheolau cynllunio / 2x Suspicious Activity/Object- Dead badger (roadkill) moved from road into bank down the road from where it was originally, caller states they believed it was deliberately put onto their property. Person anonymously reporting persons stealing electricity and avoiding planning
1 Lles a Diogelwch y Cyhoedd/galwadau 999 - Wedi ffonio yn ddamweiniol, siaradwyd â'r sawl a oedd wedi ffonio, a nododd bod popeth yn iawn / 1x Public Safety Welfare Aban/Incom 999 calls- Accidental dial, caller spoken to and states all was okay
1 Lles a Diogelwch y Cyhoedd Marwolaeth Sydyn – Adroddiad am hunanladdiad / 1x Public Safety Welfare Sudden Death- Report of suicide

**Traffig / Traffic 4**

2 Ddamwain Ffordd – Hunan-adroddiad am gi yn cael ei fwrw gan gar o bosibl, rhywun yn ffonio yn adrodd am achos o daro a ffoi ar ôl taro drych car a'r gyrrwr arall yn gyrru i ffwrdd / 2x Road Traffic Collision- Self report of possible dog run over, caller reporting hit and run after wing-mirror clipped and other driver drove off
2 Fater Traffig Arall – Dau adroddiad am safonau gyrru gwael, yr oedd y sawl a oedd yn ffonio yn credu eu bod yn yfed a gyrru. / 2x Other Traffic Matter- Two reports of poor driving, both believed by callers to be drink driving

**Cofnodion/Minutes**
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11.05.2026 / Minutes of monthly meeting held on 11.05.26 were confirmed.

**Materion yn Codi: -**

**Calon Tysul**

Yn dilyn cais am rodd gan Galon Tysul fis diwethaf, nodwyd y byddai angen i'r weinyddiaeth bresennol ymrwymo gwariant am flwyddyn gyntaf tymor newydd y Cyngor, sef 2027/28, oherwydd y byddai angen iddo osod y praesept am y flwyddyn ddilynol, 2027/28 ym mis Ionawr/Chwefror 2027 i fodloni terfynau amser y Cyngor Sir.
Penderfynwyd y byddai angen i'r Cyngor presennol ddilyn y weithdrefn uchod, a fyddai'n cynnig ymrwymiad neu fel arall ar gyfer blwyddyn gyntaf gychwynnol y weinyddiaeth nesaf. Yna, byddai'n fater i'r Cyngor newydd benderfynu a fyddai'n parhau gyda'r arfer o roi cyllid refeniw i'r tri sefydliad ar gyfer gweddill cyfnod y Cyngor newydd.
Esboniodd Cynghorydd Keith Evans i'r Cynghorwyr Cymuned, o ystyried y penderfyniad a wnaethpwyd gan Gabinet y Cyngor Sir wrth gytuno i gynnal Eisteddfod yr Urdd yng Ngheredigion yn 2029. Codwyd cwestiwn gan Gynghorydd Evans ynghylch a oedd y penderfyniad yn un dilys, gan ei fod yn gwneud ymrwymiad ariannol ar gyfer gweinyddiaeth yn y dyfodol. Sicrhawyd Cynghorydd Evans gan swyddogion uwch bod gan Awdurdodau y gallu i wneud hyn ac y byddai modd i'r Cyngor Cymuned wneud penderfyniad o'r fath. Penderfynwyd y dylai'r clerc anfon y cais gan Galon Tysul i'r aelodau eto, a hefyd, cynnwys y mater ar agenda y cyfarfod ym mis Gorffennaf, i'w ystyried ymhellach.

**4) Ceisiadau Ariannol:**

**Ffynnon Llandysul** Gofynnwyd am rodd o £300 i gynorthwyo wrth drefnu wythnos o weithgareddau ar gyfer y gymuned gyfan yn y Parc Coffa yn Llandysul, tua diwedd mis Mehefin. Roedd y cynghorwyr yn teimlo bod y cais wedi dod i mewn yn hwyr iawn ac nad oedd unrhyw amser i gael ymatebion i ymholiadau a fynegwyd yn y cyfarfod, ac y byddai'r digwyddiad wedi cael ei gynnal

**Matters Arising: -**

.

**Calon Tysul**

Following a request for a donation from Calon Tysul last month it was pointed out that the current administration would need to commit expenditure for the first year of the new Council term 2027/28 as it would need to set the precept for the ensuing year 2027/28 in Jan /Feb 2027 to meet County Council deadlines.
It was decided that the above procedure would need to be followed by the current Council which would include a commitment or otherwise for the initial first year of the next administration. It would then be a matter for the new Council to determine whether it would continue the custom and practice to support the three organisations with revenue funding for the remaining period of the new Council.
Cllr Keith Evans explained to the Community Councillors that in view of the decision taken by the Cabinet of County Council agreeing to the Urdd Eisteddfod coming to Ceredigion in 2029. Cllr Evans raised a question as to the decision being legitimate as it was making a financial commitment for a future administration. Cllr Evans was assured by senior officers that Authorities had the ability to do this and that such a decision could be made by the Community Council. It was decided that the clerk send the request from Calon Tysul to members again, and to also place the matter on the agenda for the July meeting for further consideration.

**4) Funding Applications:**

**Ffynnon Llandysul** A request for a donation of £300 was requested to

cyn cyfarfod nesaf y Cyngor. Yn ogystal, mynegwyd pryder am y ffaith bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn agos iawn i ddyddiad Carnifal Blynyddol Llandysul, sy'n ddigwyddiad uchel ei barch ac sydd wedi bod yn y calendr am amser hir iawn, ac sy'n cael ei gydnabod fel digwyddiad cymunedol blaenllaw yn ystod yr haf. Penderfynwyd gwrthod y cais a chynghori'r ymgeisydd i gyflwyno ceisiadau am gyllid, yn enwedig cais sy'n sensitif o ran yr amseriad, mewn ffordd fwy amserol.

**Sioe Llandysul Show**

Ar ôl datgelu ei budd yn y cais, gadawodd Cynghorydd Beth Davies y cyfarfod, ac ni fu'n rhan o'r broses o wneud penderfyniad. Gofynnwyd am rodd o £1000 i gynorthwyo wrth dalu'r costau sy'n gysylltiedig â llogi pabell i arddangos cynnyrch ac eitemau garddwriaethol. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

**Gohebiaeth**
Dim

**5) Materion i'w Trafod**

**Seddau Gwag Ward Tref Llandysul**
Atgoffwyd cynghorwyr o'r ffaith bod dwy sedd wag o hyd yn Ward Tref Llandysul.

**Lle Chwarae Plant Llandysul**
Atgoffodd y clerc yr holl Gynghorwyr y bydd yr Archwiliad gan Rospa yn cael ei gynnal ym mis Mehefin. Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi cael llythyr gan Ymddiriedolwyr y Parc o hyd ynghylch y perchnogaeth, cyn y gallem barhau gydag unrhyw gais am grant.

**Diffibriliwr**
Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â sefydliad cofrestru Circuit er mwyn sicrhau bod gwarcheidwad cofrestredig gan yr holl Ddiffibrilwyr sydd yn yr ardal y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani.
Bydd y clerc yn anfon rhestr o'r canfyddiadau at yr holl Gynghorwyr.

**Archwiliad**
**Archwilio Cymru –** Ffurflen Flynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/24. Yn

assist with organising a week of activities for the whole community at the Memorial Park in Llandysul scheduled towards the end of June. Councillors felt that the request had come in very late and left no time to get responses to quires expressed at the meeting and that the event would have taken place before the Council's next scheduled meeting. An element of concern was also expressed as the event was to be staged very close to the date determined for the long-standing and highly regarded Llandysul Annual Carnival recognised as a leading summertime community event. It was decided to refuse the request and to advise the applicant to submit requests for funding, particularly time sensitive request in a timelier manner.

**Llandysul Show**

Cllr Beth Davies having declared her interest in the application withdrew from the meeting and took no part in the decision-making process. A request for a donation of £1000 was asked to assist with costs associated with hiring a marquee to exhibit produce and horticultural exhibits. It was decided to donate the requested amount.

**Correspondence**
None

**5) Matters for Discussion**

**Vacant Seats Llandysul Town Ward**
Councillors were reminded that there were still two vacant seats in the Llandysul Town Ward.

**Llandysul Children's Play area**
Clerk reminded all the Councillors that the Inspection by Rospa is

ystod ei gyfarfod diwethaf, roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r cyfrifon i'w cynnwys yn y ffurflen flynyddol.
**Adran 1** – Llofnodwyd y Datganiadau Cyfrifyddu sef dadansoddiad o'r ffigurau a gymeradwywyd dan "10" uchod a'r Dystysgrif cyn archwilio gan y Clerc. Hefyd, llofnodwyd y cadarnhad cyn archwiliad gan y Cadeirydd a'r Clerc. **Adran 2** – Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae hysbysiad i'r cyhoedd yn hysbysu bod y cofnodion ar gael i'w harchwilio wedi cael ei ddangos. Mae'r Archwilydd Mewnol a'r Gwiriwr Mewnol wedi gwirio'r cyfrifon hefyd.

**Materion Ward Brys**

**Pontsiân**
Adroddodd Cynghorydd Gethin Jones y bu agoriad y lle chwarae i blant a lleoliad y cwtsh ym Mhontsiân yn llwyddiannus iawn. Fe'u hagorwyd gan Mrs Delyth Davies a Mrs Sarah Wentworth.
Estynnwyd llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Pontsiân a ddaeth yn gydradd 3ydd yn Rali'r Sir CFfI Ceredigion. Estynnwyd dymuniadau gorau i'r cynrychiolwyr llwyddiannus o'r clwb a fydd yn symud ymlaen i'r cystadlaethau Cenedlaethol nawr, a gynhelir yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.

**Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**
Cafwyd gohebiaeth ar ffurf neges e-bost fel y gofynnwyd, yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans, ward De Llandysul, yn ystod y cyfnod rhwng 12 Mai 2026 ac 8 Mehefin 2026, ac fe'i nodwyd. Cafwyd adroddiad ar lafar gan Gynghorydd Maldwyn Lewis.

**Gohebiaeth**

Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd.

**Cynllunio**
Gwnaethpwyd cais i bob Cynghorydd, yn enwedig y rhai ar y grwpiau wardiau

scheduled to take place in June. The Community Council has still not received a letter from the Park Trustees with regards to ownership before we could continue with any grant application.
**Defibrillator**
It was decided that the clerk liaise with the Circuit registration organisation to ensure all the Defibrillators within the Councils area of responsibility have a registered guardian. Clerk to send all the Councillors a list of the findings.
**Audit**
**Audit Wales –** Annual Return form for the year ended 31/03/24. The Council at its last meeting had approved the accounts for inclusion in the annual return.
**Section 1** – Accounting Statements being a breakdown of the figures approved under "10" above and the Certification prior to audit was signed by the Clerk. Also, confirmation prior to audit was signed by the Chair and Clerk. **Section 2** – It was resolved to approve The Annual Governance Statement. Notice to the public informing that the records are available for inspection has been displayed. Internal Auditor and Internal Checker have also checked the accounts.

**Urgent Ward Matters**

**Pontsian**
Cllr Gethin Jones reported that the opening of the children's play area and cwtsh location in Pontsian was very successful. They were opened by Mrs Delyth Davies and Mrs Sarah Wentworth.
Congratulations were extended to Pontsian Young Farmers Club who were joint 3rd in the Ceredigion YFC County Rally. Good luck was

cynllunio, i ymateb yn gyflym i negeseuon e-bost y bydd y clerc yn ei hanfon atynt er mwyn gallu adrodd safbwyntiau'r Cyngor Cymuned i bwyllgor rheoli Datblygu yr Awdurdod Cynllunio.

**Gwybodaeth Ariannol**

Llinos Jones – Ysgrifennwyd siec am y swm o £152.30 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mai.
LAS Recycling Ltd - Ysgrifennwyd siec am y swm o £86.33 am gasglu sbwriel o'r Parc Coffa a Chaeau Tirdref yn ystod mis Mai.
Cliand Computers Ysgrifennwyd siec am y swm o £…….. am brynu inc
Alan Evans– Ysgrifennwyd siec am y swm o £630 gan bod y clerc wedi talu'r Taledig anghywir ym mis Mai, a dychwelwyd y siec.
Nia Davies – Ysgrifennwyd siec am y swm o £427.48 fel ad-daliad iddi am brynu dillad llachar a goleuadau Nadolig, ac mae'r elfen ar gyfer Dillad Llachar yn cael ei hawlio'n ôl fel rhan o gynllun grant trefi taclus.

extended to the successful club representatives who will now proceed to the National competitions held at the Royal Welsh Show in July.

**Report by County Councillors**
E-mail correspondence was received as requested providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 12th May2026 – 8th June 2026 and noted. Cllr Maldwyn Lewis gave a verbal report.

**Correspondence**

Clerks and Councils Direct were received and noted.

**Planning**
A request was made to all Councillors, particularly those on the planning ward groups, to respond swiftly to emails sent to them by the clerk to enable the views of the Community Council to be reported to the Development management committee of the Planning Authority.

**Financial Information**

Llinos Jones – Cheque for £152.30 was written for May translation.
LAS Recycling Ltd - Cheque was written for £86.33 for refuse collection from Llandysul Memorial Park and Tirdref Fields for the month of May.
Cliand Computers A cheque was written for £…….. for the purchase of ink
Alan Evans– Cheque was written for £630 as the clerk had paid the incorrect Payee in May and the cheque had been returned.
Nia Davies – A cheque was written for £427.48 for reimbursement of high viz clothing and Christmas

lighting that she had purchased with the High Viz element being claimed back as part of the tidy towns grant scheme.

ArwyddSieciau/Signing of Cheques:

*Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/*
*Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-*

*£ c/£ p* *Rhif siec/ Cheque number*

## *Sieciau Mis Mehefin / Cheques June*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 152.30 | 001441 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc | 633.07 | 001442 |
| ]HMRC | Cyflog y Clerc | 214.34 | 001443 |
| Nia Davies | Rhyngrwyd/Broadband | 140.00 | 001444 |
| Nia Davies | Postio /Postage | 20.88 | 001445 |
| Cliand Computers | Inc/Ink | 180.00 | 001446 |
| LAS | Sbwriel/Refuse | 86.33 | 001447 |
| Alan Evans | Cynnal a Chadw | 630.00 | 001448 |
| Sioe Llandysul | Rhodd/Donation | 1000.00 | 001449 |
| Nia Davies | Ad-daliad grant TT | 427.48 | 001450 |
| Bryan Wooley Painter | Grant TT | 3300 | 001451 |
| | | | |